# Welcome to our October Newsletter

YSGOL ABERCONWY

Click here (or scroll down) to read the newsletter in Welsh.

## Celebrating Success at our Awards Evening

On 20th October the 13th annual Awards Evening was held to recognise the success of a wide range of students. With parents in attendance, over 100 students received trophies awarded for such things as their contribution to various subjects and excellence at GCSE and A Level.

The awards were presented by a former pupil at the school, Justin Everley, who gained a Masters Degree from the University of Western Australia, became the commercial and marketing manager for Perth Glory Football Club, was a project director delivering merchandise for the 15th Asian Games, the Director of an artificial grass company and is now Business Development manager at Surf Snowdonia!

Congratulations to all the students receiving awards!



## In this Half term's Newsletter

(click to jump to an article) :


Download our new parent's App
Find out about our Extra Curricular activities
Exam Success
Students' Work
Science Inspiration from the RAF
Staff and students take part in the 'Dawn Walk'
Macmillan Coffee morning raises over £200
Forest School
Awards Evening
Charity miles
Congratulations
Dates for your diary
Languages Learning


Click (or scroll down) to read the newsletter in Welsh.

And click any of the section dividers to return to the top of the newsletter :




## Download our 'App' today!

We have a new App available that will give you access to information we collect and hold on your child in school. (Web access is also available.)

This includes assessment information, a record of their achievements, access to 'behaviour points', attendance information, your child's timetable and their reports.

It will also make it easier for you to contact us to tell us about reasons for absence and to pay for school trips.

For more information visit our website, or click here

## The Extra-Curricular programme is up and running!

Whatever hobbies or interest your child may have, we've got something for everyone here at Ysgol Aberconwy.

The current programme is set out below, but any changes and updates during the year can be found on our website by clicking here.

**Sports Activities :**

| When | Monday | Tuesday | Wednesday | Thursday | Friday |
|---|---|---|---|---|---|
| Lunchtime | Y7 Netball | Y8&9 Netball | Y10&11 Netball Y9&10 Dodgeball | Badminton Y7&8 Dodgeball | Girls Touch Rugby |
| After school | Boys & Girls Football | | Rugby | | |

**Other Activities :**

| When | Monday | Tuesday | Wednesday | Thursday | Friday |
|---|---|---|---|---|---|
| Lunchtime | Art Club | Choir Art Club | German Club A110 KS4 Art club Robotics | French Club A110 | Maths Club A103 |
| After school | Boogey Nights Rehearsals | | | | |
| | KS4 Art | Mandarin A112 | Mandarin A112 | Mandarin A112 KS3 Poetry club A001 | |

## Outstanding A Level results!



Aberconwy students and staff celebrated the school's best ever A level results with A/A* grades (or their equivalent) making up **30% of all results** and **66% of the year group** celebrating at least one A grade.

Exceptional results were achieved by Rebecca Caulfield (A*, A, A), Ieuan Hennessy (A*, A*, A, B), Josh Hunt (A*, A, A, B) and Matthew Williams (A*, A*, A*, A, C). 95% of students have been accepted by their first University choice and are set to start a variety of degree courses including Italian and Linguistics at Bangor, Mechanical Engineering at Bath and Aerospace Engineering at Swansea. As a school we are very proud of an exceptional group of young people who have achieved their potential and who are now moving on to study interesting and challenging courses. We wish them well for the future and look forward to hearing of their continued success in the years to come.

## GCSE Success!



Ysgol Aberconwy students also celebrated their GCSE success. Most of the students have now started in the school's sixth form where they are studying a wide-range of Advanced courses, participate in the school's enrichment programme and take on roles of responsibility.

It is good to see students reaping the rewards that their hard work deserves and we are extremely proud of all that our year 11 students have achieved, both inside and outside the classroom. We were delighted to see students take this first successful step into their futures, be it through access to further study, apprenticeships or employment, and shared with them and their families in celebrating their success.

Exceptional results were achieved by Chloe Ellison [6 A*, 5 A, 1 B], Caitlin Hogan [5 A*, 3 A, 2 B, 1 C], Aiden Kelly [3 A*, 2 A, 5 B, 2 C], Rhiannon Marshall [7 A*, 3 A,1 B] and Daniel Verburg [2A*, 5 A, 3 B,1 C].

## Science Inspiration from the RAF

Year 7 experienced the excitement of virtual reality as well as the power of jet engines and a whole host of other practical and challenging science in September's RAF roadshow!






## Macmillan Charity Fundraiser

Well done to all our sixth form students who organised the Macmillan Coffee Morning at the end of September - raising well over £200 for such a worthy cause.

Congratulations to the 'Dawn Walk' team who took part in the recent event to raise money for St. David's Hospice. Da iawn pawb!



## Inspirational work from Y7 to Y13

Year 7 students have been creating models of cells in science from anything they can get their hands on – here are two examples, one made from a variety of recycled technological material and the other a cunningly disguised sponge cake!








Meanwhile year 12 and 13 design students have visited the WJEC innovation awards, showcasing the pick of last year's coursework from across the nation.

Here we show Amber Hughes' inspirational lamp, designed and made as part of her Product Design course.



Ffion Boothby (Y11) meanwhile penned this poem for a recent assembly on 'The international day of the Girl'

Say no.
That's a command officer girl child of the millennial, millennia, millennium.
Over population, starvation, life advice, heart in a vice.
Pens, pencils, rubber and a ruler. Simple, don't let them sweat it. Education Reform.
We can be reborn, less blind to reality.
Fingers through the hair, born naked and afraid.
Third world, first word for first world.
Girl Child, too vile.
It's your opinion, your decision...you decide your destiny.
adolescent ladies,eradication of
Unnecessary mutilation against the will of the girl child.
Opinionated and trashy not classy, here we go again. Conservative or socialist, motionless or emotionless. Floater or dead set voter, rope her, dote her. Set free our dreams of owning a home and growing alone without a child or tradition. Keep it, don't sweep it. Let me play for slightly longer, let me move to the city. Let me say no and just let me go. Life experience, stuff it, I own it, it's me.
Girl child of the 21st century at your service.
It's scary to think the statistics.
UN confirm it, don't burn it, don't just except it. Unfree the freedom of being wed at just ten by a man you met yesterday, you can't comprehend in your head. Right to education, formation says no. Legal care and protection from violence and discrimination. Innovating, empowering. Victimised for being victimised and held against the thrill that didn't ever belong to the girl child.
That never belong to us.
That never belong to me.

## YAC Forest School

Forest School sessions started up for small groups of pupils in September, with Hiraethlyn pupils getting to experience it first.
Forest School is an inspirational process that offers small groups of pupils regular opportunities to achieve and develop confidence and self-esteem through hands-on learning experiences in a woodland or natural environment with trees. It instils a love and respect for nature and is led by qualified Forest School leaders.

For more information on this exciting development to our curriculum, visit our website here.





To support our work in this initiative, the school is also starting a gardening and wildlife project and would welcome any donations to help get it up and running, specifically:

- Any plants suitable for propagation e.g. potatoes, rhubarb, strawberries
- Any seeds (preferably foods).
- Cold frames, pots (any shape/size), trowels/tools, canes.
- Pallets, logs, stumps, posts.

Please email mmisiak@aberconwy.conwy.sch.uk to arrange any donation, as large items cannot be left with Reception.

## Congratulations to …

**Malin Owen (Y8)** who has been voted in as Chairman of "The Children's Commissioner for Wales Advisory Panel". He is also the Youth Ambassador for the Outdoor Partnership.

**Ben Foggo (Y10)** who represented the NW1 Gym Club recently in Germany for Weight Lifting. He has won the Welsh Championships three times, British Championship once and is about to compete again next month for the Celtic Championships. Not bad for someone who only took up the sport 3 years ago!

**Ceri Watson (Y7) and Elin Watson (Y9)** have both qualified to swim in the Swim Wales Short Course Championships which is held in Swansea.

**Caitlin Owen (Y9)** has been selected to swim for Conwy County at this weekend's championships, also in Swansea.

## Get active to raise money for charity

CHARITY MILES

Parents, students and staff can join the Ysgol Aberconwy's Charity Miles team by downloading the App to your smartphone.
This App allows you to earn sponsorships on behalf of certain charities while walking, running, biking and participating in other activities. For every mile that you travel using the Application, you can earn money for a Charity (*up to* 25¢ per mile while walking or running, and *up to* 10¢ per mile while biking), subject to an overall Cap.
Move with purpose / Symudwch efo pwrpas!

Further terms and conditions available at: http://charitymiles.org/terms.html

## Language Learning

We have weekly languages clubs for German and French respectively on Wednesday and Thursday lunchtimes. These are led by the Language Ambassadors who have introduced new language to the lower school, played games, run competitions and created a video based on a parody of 'Under The Sea' from the Little Mermaid to help remember certain grammar rules in German. The Language Ambassadors also delivered assemblies to the whole school about the European Day of Languages in September.

GCSE linguists entered a League of Champions online competition for the European Day of Languages in which over 640 schools across the globe took part. Sadly we did not come in the top 20, however there were a number of fantastic individual performances from Denise Yesil, a dual linguist, who has been named the 'school genius' in both French and Spanish, and Anthony North 'school genius' for German.



We have just started working with a new Foreign Language Assistant. Bernadette Pinzer, an Erasmus student at Bangor university from Innsbruck in Austria, who will be working with GCSE and A level German pupils. This is a great opportunity for our students to help develop and build confidence in their speaking skills with a native German speaker.

Year 9 have been learning to talk about aches and pains using blow-up skeletons and assessing each others language through role-plays at the doctors and at the recent Open Evening we offered a taste of the languages on offer at YAC through continental food tasting which was a success with the parents and pupils who came to visit the department.

## Dates for diary ….

3$^{rd}$ November 4pm : Performance of "Layla's Room"
8$^{th}$ November 3.45pm : Year 10 Parents' evening
10$^{th}$ & 11$^{th}$ November : Y7 trip to Plas Menai
23$^{rd}$ November 1pm : "Boogey Nights" performance for Primary Schools
24$^{th}$ November : Year 8-13 Photographs
23$^{rd}$, 24$^{th}$, 25$^{th}$, 26$^{th}$ November 7pm : "Boogey Nights" performance
29$^{th}$ November 3.45pm : Year 9 Parents' evening
1$^{st}$ December 5.00pm : Year 7 Christmas Disco
5$^{th}$ December 3.45pm : Year 8 Parents' evening
14$^{th}$ December 7pm : Carol Service at St. Mary's Church, Conwy

# Croeso I Gylchlythyr mis Hydref

YSGOL ABERCONWY

## Dathlu Llwyddiant yn ein Noson Wobrwyo

Ar Hydref 20fed cynhaliwyd y 13eg Noson Wobrwyo Flynyddol i gydnabod llwyddiant amrediad eang o fyfyrwyr. Yng nghwmni'r rhieni, derbyniodd mwy na 100 o fyfyrwyr dlysau am amryw o bethau, fel eu cyfraniad i wahanol bynciau ac am ragori mewn TGAU a Safon Uwch.

Cyflwynwyd y gwobrwyon gan Justin Everley, cyn-ddisgybl o'r ysgol,a enillodd Radd Meistr ym Mhrifysgol Gorllewin Awstralia cyn cymryd swydd fel rheolwr masnachol a marchnata Clwb Pêl-droed Perth Glory, gweithio fel cyfarwyddwr project a ddosbarthai nwyddau i'r 15fed Gemau Asiaidd, a chael swydd fel Cyfarwyddwr cwmni gwair artiffisial. Bellach mae'n gweithio fel rheolwr Datblygu Busnes yn Syrffio Eryri!

Llongyfarchiadau i'r holl fyfyrwyr a enillodd wobrwyon!



## Yng Nghylchlythyr yr Hanner tymor hwn

(cliciwch i weld yr erthygl) :


Llwythwch i lawr ein App newydd ar gyfer rhieni
Dysgwch fwy am ein gweithgareddau Allgyrsiol
Llwyddiant yn yr Arholiadau
Gwaith Myfyrwyr
Ysbrydoliaeth mewn Gwyddoniaeth gan yr RAF
Staff a myfyrwyr yn cymryd rhan yn Nhaith y Wawr
Bore coffi Macmillan Coffee yn codi mwy na £200
Ysgol Goedwig
Noson Wobrwyo
Milltiroedd at elusen
Llongyfarchiadau
Ar gyfer eich dyddiadur …
Dysgu Ieithoedd


A chliciwch unrhyw un o'r rhannwyr adrannau er mwyn dychwelyd i frig y cylchlythyr:




# Llwythwch i lawr ein 'App' heddiw!

Mae gennym App newydd a fydd yn eich galluogi i weld gwybodaeth sy'n cael ei chasglu a'i chadw am eich plentyn yn yr ysgol. (Gallwch gael mynediad trwy'r We hefyd.)

Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am asesiadau, cofnod o'u cyflawniadau, mynediad i 'bwyntiau ymddygiad', gwybodaeth am bresenoldeb, amserlen eich plentyn a'u hadroddiadau.

Bydd hefyd yn ei wneud yn haws i chi gysylltu â ni i roi rhesymau dros absenoldeb ac i dalu am deithiau ysgol.

Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan, neu gliciwch yma.

## Mae'r rhaglen Allgyrsiol ar y gweill!

Beth bynnag fo hobïau neu ddiddordebau eich plentyn, mae rhywbeth at ddant pawb yma yn Ysgol Aberconwy.

Isod fe welwch y rhaglen gyfredol, ond cewch hyd i unrhyw newidiadau neu ddiweddariadau sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn ar ein gwefan trwy glicio yma.

**Gweithgareddau Chwaraeon:**

| Pryd | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|---|---|---|---|---|---|
| Amser Cinio | Pêl-rwyd Bl7 | Pêl-rwyd Bl8&9 | Pêl-rwyd Bl10&11<br><br>Pêl-osgoi Bl9&10 | Badminton<br><br>Pêl-osgoi Bl7&8 | Rygbi Cyffwrdd Merched |
| Ar ôl ysgol | Pêl-droed Bechgyn & Merched | | Rygbi | | |

**Gweithgareddau Eraill :**

| Pryd | Dydd Llun | Dydd Mawrth | Dydd Mercher | Dydd Iau | Dydd Gwener |
|---|---|---|---|---|---|
| Amser Cinio | Clwb Celf | Côr Clwb Celf | Clwb Almaeneg A110 CA4 Clwb Celf | Clwb Ffrangeg A110 | Clwb Mathemateg A103 |
| Ar ôl ysgol | Ymarferion Boogey Nights | | | | |
| | Celf CA4 | Mandarin A112 | Mandarin A112 | Mandarin A112 Clwb Barddoniaeth CA3 A001 | |

## Canlyniadau Safon Uwch Gwych!



Bu myfyrwyr a staff Aberconwy yn dathlu canlyniadau safon Uwch gorau'r ysgol erioed gyda graddau A/A* (neu gywerth) yn ffurfio **30% o'r holl ganlyniadau** a **66% o'r grŵp blwyddyn** yn dathlu o leiaf un radd A.

Cafwyd canlyniadau eithriadol gan Rebecca Caulfield (A*, A, A), Ieuan Hennessy (A*, A*, A, B), Josh Hunt (A*, A, A, B) a Matthew Williams (A*, A*, A*, A, C). Mae 95% o'r myfyrwyr wedi cael eu derbyn gan eu dewis cyntaf o ran Prifysgol ac ar fin dechrau cyrsiau gradd amrywiol gan gynnwys Eidaleg a Ieithyddiaeth ym Mangor, Peirianneg Fecanyddol yng Nghaerfaddon a Pheirianneg Awyrofod yn Abertawe. Fel ysgol rydym yn falch iawn o grŵp o bobl ifainc eithriadol sydd wedi cyflawni eu potensial ac sydd bellach yn symud ymlaen i astudio cyrsiau diddorol a heriol. Dymunwn y gorau iddynt ar gyfer y dyfodol ac edrychwn ymlaen at glywed am eu llwyddiant yn y blynyddoedd i ddod.

## Llwyddiant mewn TGAU!



Bu myfyrwyr Ysgol Aberconwy hefyd yn dathlu eu llwyddiant ar lefel TGAU. Erbyn hyn, mae'r mwyafrif o'r myfyrwyr wedi dechrau are eu chweched flwyddyn yn yr ysgol, gan astudio amrywiaeth eang o gyrsiau Uwch, gymryd rhan yn rhaglen gyfoethogi'r ysgol ac ymgymryd â rolau cyfrifol.

Mae'n dda i weld myfyrwyr yn cael eu gwobrwyo am eu gwaith caled ac rydym yn falch iawn o'r hyn a gyflawnodd ein myfyrwyr blwyddyn 11, o fewn a thu allan i'r dosbarth. Roeddem wrth ein bodd yn gweld myfyrwyr yn cymryd y cam cyntaf llwyddiannus hwn tuag at eu dyfodol, boed hynny trwy gael mynediad i astudio pellach, prentisiaethau neu gyflogaeth, a buom yn dathlu eu llwyddiant gyda'u teuluoedd.

Cafwyd canlyniadau eithriadol gan Chloe Ellison [6 A*, 5 A, 1 B], Caitlin Hogan [5 A*, 3 A, 2 B, 1 C], Aiden Kelly [3 A*, 2 A, 5 B, 2 C], Rhiannon Marshall [7 A*, 3 A,1 B] a Daniel Verburg [2A*, 5 A, 3 B,1 C].

## Ysbrydoliaeth mewn Gwyddoniaeth gan yr RAF

Profodd Blwyddyn 7 gyffro rhithwirionedd yn ogystal â phŵer peiriannau jet a llond gwlad o wyddoniaeth ymarferol a heriol yn sioe deithiol yr RAF ym mis Medi!





## Codi arian at Elusen Macmillan

Llongyfarchiadau i bob un o'n myfyrwyr chweched dosbarth a drefnodd Fore Coffi Macmillan ar ddiwedd mis Medi – gan godi ymhell dros £200 ar gyfer achos teilwng iawn.

Llongyfarchiadau i'r tîm 'Taith y Wawr' a gymerodd ran yn y digwyddiad yn ddiweddar er mwyn codi arian at Hosbis Dewi Sant. Da iawn pawb!



## Gwaith ysbrydoledig gan Bl7 I Bl13

Mae myfyrwyr Blwyddyn 7 wedi bod yn creu modelau o gelloedd mewn gwyddoniaeth gan ddefnyddio unrhyw beth sy'n dod i law – dyma ddwy enghraifft, un wedi'i gwneud o ddefnyddiau technolegol a ailgylchwyd a'r llall, cacen sbwng mewn cuddwisg gyfrwys!







Yn y cyfamser, mae myfyrwyr dylunio Blwyddyn 12 a 13 wedi bod yn ymweld â gwobrau arloesedd CBAC, a fu'n arddangos gwaith cwrs gorau y llynedd o bob cwr o'r wlad.

Dyma lamp ysbrydoledig Amber Hughes a gafodd ei dylunio a'i gwneud fel rhan o'i chwrs Dylunio Cynnyrch.



Yn y cyfamser, cyfansoddodd Ffion Boothby (Bl11) y gerdd hon ar gyfer gwasanaeth ar 'Ddiwrnod Cenedlaethol y Ferch' yn ddiweddar.

Say no.
That's a command officer girl child of the millennial, millennia, millennium.
Over population, starvation, life advice, heart in a vice.
Pens, pencils, rubber and a ruler. Simple, don't let them sweat it. Education Reform.
We can be reborn, less blind to reality.
Fingers through the hair, born naked and afraid.
Third world, first word for first world.
Girl Child, too vile.
It's your opinion, your decision...you decide your destiny.
adolescent ladies, eradication of
Unnecessary mutilation against the will of the girl child.
Opinionated and trashy not classy, here we go again. Conservative or socialist, motionless or emotionless. Floater or dead set voter, rope her, dote her. Set free our dreams of owning a home and growing alone without a child or tradition. Keep it, don't sweep it. Let me play for slightly longer, let me move to the city. Let me say no and just let me go. Life experience, stuff it, I own it, it's me.
Girl child of the 21st century at your service.
It's scary to think the statistics.
UN confirm it, don't burn it, don't just except it. Unfree the freedom of being wed at just ten by a man you met yesterday, you can't comprehend in your head. Right to education, formation says no. Legal care and protection from violence and discrimination. Innovating, empowering. Victimised for being victimised and held against the thrill that didn't ever belong to the girl child.
That never belong to us.
That never belong to me.

# Ysgol Goedwig YAC

Dechreuwyd sesiynau Ysgol Goedwig ar gyfer grwpiau bach o ddisgyblion  ym mis Medi,   a disgyblion Hiraethlyn oedd y cyntaf i elwa ar y profiad hwn.
Mae Ysgol Goedwig yn broses ysbrydoledig sy'n cynnig cyfle rheolaidd i grwpiau bach o ddisgyblion gyflawni a datblygu hyder a hunan-barch trwy brofiadau dysgu ymarferol mewn coedwig neu amgylchedd naturiol sy'n cynnwys coed. Mae'n ennyn cariad a pharch at natur. Mae'n cael ei chynnal gan arweinwyr Ysgol Goedwig cymwysedig.

Am fwy o wybodaeth am y datblygiad cyffrous hwn i'n cwricwlwm, ewch i'n gwefan trwy glicio yma.





Er mwyn cefnogi ein gwaith gyda'r fenter hon, mae'r ysgol hefyd yn cychwyn project garddio a bywyd gwyllt a byddem yn gwerthfawrogi unrhyw gyfraniadau i'n helpu i'w lansio, yn benodol:

- Unrhyw blanhigion y gellir eu hepilio e.e. tatws, riwbob, mefus
- Unrhyw hadau (yn ddelfrydol bwydydd).
- Fframiau oer, potiau, (unrhyw siâp/maint), tryweli/offer, gwialennau.
- Paledau, boncyffion, stympiau, pyst.

Os gwelwch yn dda, e-bostiwch mmisiak@aberconwy.conwy.sch.uk i drefnu unrhyw roddion, gan na chewch adael unrhyw eitemau mawr yn y Dderbynfa.

# Llongyfarchiadau i …

**Malin Owen (Bl8)** a etholwyd yn Gadeirydd "Panel Ymgynghorol Comisiynydd Plant Cymru". Y mae hefyd yn Lysgennad Ifanc y Bartneriaeth Awyr Agored.

**Ben Foggo (Bl10)** a gynrychiolodd Clwb Campfa NW1 yn Yr Almaen yn ddiweddar yn y gystadleuaeth Codi Pwysau. Enillodd Bencampwriaeth Cymru dair gwaith, Pencampwriaeth Prydain unwaith ac mae ar fin cystadlu eto fis nesaf, y tro hwn am y Bencampwriaeth Geltaidd. Ddim yn ddrwg am rywun a roddodd gynnig ar godi pwysau am y tro cyntaf 3 blynedd yn ôl!

Mae **Ceri Watson (Bl7) ac Elin Watson (Y9)** ill dwy wedi ennill lle ar gyfer nofio ym Mhencampwriaeth Nofio Cymru (Cwrs Byr) a gynhelir yn Abertawe.

Dewiswyd **Caitlin Owen (Y9)** i nofio dros Sir Conwy yn y bencampwriaeth sy'n cael ei chynnal y penwythnos hwn, hefyd yn Abertawe.

# Ewch ati i godi arian at elusen

PGall rhieni, myfyrwyr a staff ymuno â thîm Milltiroedd at Elusen Ysgol Aberconwy trwy lwytho i lawr yr App i'ch ffôn clyfar.

Mae'r App hwn yn eich galluogi i gael eich noddi ar ran elusennau penodol wrth gerdded, rhedeg, beicio a chymryd rhan mewn gweithgareddau eraill. Am bob milltir a deithiwch gan ddefnyddio'r App, gallwch ennill arian at Elusen (*hyd at* 25¢ y milltir wrth gerdded neu redeg, a *hyd at* 10¢ y milltir wrth feicio), yn amodol ar Gap cyffredinol. Symudwch efo pwrpas!

Cewch hyd i fwy o dermau ac amodau ar: http://charitymiles.org/terms.html

# Dysgu Iaith

Rydym yn cynnal clybiau iaith wythnosol ar gyfer Almaeneg a Ffrangeg yn ôl eu trefn yn ystod amser cinio ar ddydd Mercher a dydd Iau.  Mae'r clybiau hyn yn cael eu harwain gan Lysgenhadon Iaith sydd wedi cyflwyno'r iaith newydd i'r ysgol iau, chwarae gemau, cynnal cystadlaethau a chreu fideo a seiliwyd ar barodi o 'Dan y Môr' o'r *Little Mermaid* er mwyn helpu i gofio rheolau gramadeg penodol yn Almaeneg. Yn ogystal, cyflwynodd y Llysgenhadon Iaith wasanaethau i'r ysgol gyfan ar y Diwrnod Ewropeaidd ar gyfer Ieithioedd ym mis Medi.

Rhoddodd ieithyddion TGAU gynnig ar gystadleuaeth ar-lein Cynghrair y Pencampwyr ar y Diwrnod Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd. Cymerodd mwy na 640 o ysgolion ledled y byd ran yn y gystadleuaeth.  Yn anffodus, nid oeddem ymhlith yr 20 uchaf, ond er hynny cafwyd nifer o berfformiadau unigol gwych gan Denise Yesil, sy'n siarad dwy iaith, ac a elwid yn 'athrylith yr ysgol' mewn Ffrangeg a Sbaeneg, ac Anthony North, 'athrylith yr ysgol' mewn Almaeneg.



Rydym newydd ddechrau gweithio gyda Chynorthwyydd Iaith Dramor newydd, Bernadette Pinzer, myfyrwyraig Erasmws ym mhrifysgol Bangor sy'n dod o Innsbruck yn Awstria ac a fydd yn gweithio gyda disgyblion sy'n astudio Almaeneg TGAU a Safon Uwch. Dyma gyfle gwych i'n myfyrwyr geisio datblygu a chynyddu eu hyder yn eu sgiliau siarad gyda chymorth siaradwr brodorol o'r Almaeneg.

Mae Blwyddyn 9 wedi bod yn dysgu i siarad am ddoluriau a phoenau gan ddefnyddio ysgerbydau wedi'u chwythu i fyny a thrwy asesu iaith eu gilydd wrth chwarae rôl yn y feddygfa. Yn ein Noson Agored yn ddiweddar, cawsom flas ar yr ieithioedd eraill sy'n cael eu cynnig yn YAC trwy flasu bwyd cyfandirol – llwyddiant mawr o safbwynt y rhieni a'r disgyblion a ddaeth i weld yr adran.

## Ar gyfer y dyddiadur ….

3$^{ydd}$ o Dachwedd 4pm : Perfformiad o "Layla's Room"
8$^{fed}$ o Dachwedd 3.45pm : Noson Rieni Blwyddyn 10
10$^{fed}$, 11$^{eg}$ o Dachwedd Taith Bl7 i Blas Menai
23$^{ain}$ o Dachwedd 1pm : Perfformiad o "Boogey Nights" ar gyfer Ysgolion Cynradd
23$^{ain}$, 24$^{ain}$, 25$^{ain}$, 26$^{ain}$ o Dachwedd 7pm : Perfformiad o "Boogey Nights"
29$^{ain}$ o Dachwedd 3.45pm : Noson Rieni Blwyddyn 9
6$^{ed}$ o Rhagfyr 3.45pm : Noson Rieni Blwyddyn 8
14$^{eg}$ o Ragfyr 7pm : Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Santes Fair, Conwy